COFNODION CYFARFOD O BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 1 A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB, DDYDD IAU, 18 IONAWR 2024 AM 11AM

Yn Bresennol

Y Cynghorydd A Williams - Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H Griffiths | D M Hughes | I M Spiller | JH Tildesley MBE |
| AJ Williams | E D Winstanley | | |

Yn bresennol o bell

| | | |
|---|---|---|
| RJ Collins | M Jones | T Thomas |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

M J Evans a J Llewellyn-Hopkins

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Shepard | Prif Weithredwr |
| Carys Lord | Prif Swyddog, Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Kelly Watson | Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Nicola Echanis | Pennaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid |
| Victoria Adams | Rheolwr Cyllid, Rheoli Cyllideb: Cymunedau, Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |

Aelodau'r Cabinet

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Huw David | Arweinydd y Cyngor |

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd |
| Y Cynghorydd Hywel Williams | Aelod Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a Materion Cyfreithiol |
| Y Cynghorydd Jon-Paul Blundell | Aelod Cabinet dros Addysg |

Gwahoddedigion / Cynrychiolwyr Cofrestredig

| | |
|---|---|
| Hannah Castle | Cadeirydd y Fforwm Cyllid Ysgolion |
| Jonathan Lewis | Is-Gadeirydd y Fforwm Cyllid Ysgolion |
| Ms Angela Clarke | Cynrychiolydd Cofrestredig yr Eglwys yng Nghymru |
| Ms Samantha Rachel Lambert-Worgan | Cynrychiolydd Arbennig Rhiant Lywodraethwyr Ysgol |

Datganiadau o Fuddiant

Y Cynghorydd Amanda Williams – Personol – Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Coety

## 37. Cymeradwyo'r Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Penderfynwyd: Bod Cofnodion cyfarfod Pwyllgor 1 Trosolwg a Chraffu Pwnc, dyddiedig 4 Rhagfyr 2023, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Ionawr 2024 |

## 38. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2024-25 i 2027-28

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Penderfynwyd: Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth fanwl gydag Aelodau Cabinet perthnasol a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a'r sylwadau a ganlyn:<br><br>**1. ATODLEN 1**<br>Mewn perthynas â'r gostyngiad arfaethedig mewn perthynas â Chyllidebau Dirprwyedig Ysgolion o 5% yn 2024-2025, mynegodd yr Aelodau bryderon cryf ynghylch maint yr arbediad |

| | |
|---|---|
| | ar gyfer y flwyddyn i ddod, a'r effaith bosibl y byddai hyn yn ei chael ar gyllidebau ysgolion, gydag adroddiadau'n nodi ei fod yn anghynaliadwy ac y byddai'n arwain at dros 80% o ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol yn mynd i ddiffyg.<br><br>Amlygodd tystiolaeth a ddarparwyd gan gynrychiolwyr y Fforwm Cyllid Ysgolion, y cynnydd sylweddol yn ddiweddar mewn dysgwyr agored i niwed sydd wedi'i weld gan bob ysgol ers y pandemig, ac yn fwy nag a welwyd erioed o'r blaen. Dywedwyd y gallai effaith y gostyngiad arfaethedig o 5% i gyllidebau ysgolion, ynghyd â'r gostyngiadau arfaethedig pellach mewn gwasanaethau cymorth, effeithio'n ddifrifol ar ddysgwyr sy'n agored i niwed.<br><br>**a** Er mwyn lleihau'r effaith cymaint â phosibl a rhoi mwy o amser i ysgolion gynllunio a pharatoi, mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr arbediad arfaethedig o 5% yn cael ei leihau a'i wasgaru ar draws blynyddoedd 2, 3 a 4, gan ddechrau gyda gostyngiad o 2% yn unig ar gyfer 2024-25, ac yn cael ei ddilyn gan 2% ar gyfer pob blwyddyn 2-4, gan ddal i gyflawni yr 8% cyffredinol sydd ei angen.<br><br>**b** I lenwi'r bwlch hwn yn y gyllideb, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cabinet yn ystyried defnyddio unrhyw gyllid posibl y gallai'r Awdurdod ei gael gan y Llywodraeth Ganolog mewn perthynas â phensiynau athrawon yn ogystal ag ailedrych ar y pwysau cyllidebol arfaethedig o £11,856 miliwn ac ystyried beth y gellid ei ohirio ar gyfer 2024-2025.<br><br>**2. Gwasanaethau Cymorth Addysg a Chymorth i Deuluoedd (EFS) 12, 13 ac 14 a Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**<br><br>Tynnodd y Pwyllgor sylw at yr effaith negyddol y byddai'r gostyngiadau arfaethedig i EFS, 12, 13 ac 14 yn ei chael ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) fel y'u nodwyd gan gynrychiolwyr Penaethiaid yn y cyfarfod. Roedd yr Aelodau'n arbennig o bryderus ynghylch y ffaith y gallai'r gostyngiadau hyn olygu na fyddai'r Awdurdod yn diwallu ei ddyletswyddau statudol i'r plant a'r bobl ifanc hyn o ran bodloni'r amserlenni ar gyfer asesiadau. Roedd y Pwyllgor yn cytuno'n gryf mor bwysig yw'r asesiadau hyn ar gyfer disgyblion ag ADY, y mae gan lawer ohonynt anghenion cymhleth, ac felly angen asesiad cyflym er mwyn gallu cael y gwasanaethau cymorth sydd eu hangen arnynt.<br>O ganlyniad i'r pryderon hyn a rhwymedigaeth gyfreithiol yr Awdurdod i'r disgyblion hyn, mae'r Pwyllgor yn argymell bod EFS 13 ac 14 yn cael eu dileu o'r cynigion i leihau'r gyllideb a bod y |

| | |
|---|---|
| | cyllidebau cysylltiedig hyn yn cael eu neilltuo yn erbyn gostyngiadau yn y dyfodol. Cynigiodd yr Aelodau y gellid dod o hyd i'r arbediad hwn o £67,000 o bosibl o fewn y twf arfaethedig o £500,000 o dan EFS4, a gofynnwyd am eglurhad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, o'r hyn yr oedd y £500,000 hwn yn ei gynnwys, i'w ystyried gan yr Aelodau yn y cyfarfod gyllideb derfynol ar 30 Ionawr.<br><br>**3.Gwasanaethau a Dyletswyddau Statudol**<br><br>Gan adeiladu ar yr argymhelliad uchod, mynegodd y pwyllgor bryder cryf ynghylch yr holl ostyngiadau arfaethedig sy'n amlygu effaith bosibl ar gyflawni dyletswyddau statudol yr Awdurdod. Tynnodd yr Aelodau sylw at y goblygiadau sylweddol y gallai hyn eu cael i'r Awdurdod Lleol ac argymhellwyd bod y Cabinet yn gwarchod rhag hyn fel blaenoriaeth, gan ailedrych ar y cynigion hynny sy'n peryglu cyflawni dyletswyddau statudol.<br><br>**4.Cynllun Ariannol i Ysgolion**<br><br>Gan werthfawrogi y gall Fforwm Cyllid Ysgolion godi a thrafod newidiadau arfaethedig i'r fformiwla gyllido ysgolion (ac eithrio'r rhai sydd wedi'u rhwymo gan ddeddfwriaeth), tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith, gan fod amgylchiadau wedi newid cymaint ers pandemig COVID-19, a'r pwysau ariannu nawr sy'n wynebu ysgolion, roedd angen i'r Awdurdod Lleol gychwyn adolygiad o'r cynllun ariannol ar gyfer ysgolion. Mynegodd y Pwyllgor bryder hefyd ynghylch adroddiadau nad oedd cyrff llywodraethu ysgolion cynradd efallai wedi cymryd rhan mewn adolygiadau a newidiadau blaenorol i'r fformiwla ariannu ac ni ymgynghorwyd â hwy ynghylch y rhain.<br>Mae’r Pwyllgor felly’n argymell y dylid cynnal adolygiad llawn o’r cynllun ariannol a’r fformiwla ariannu ar gyfer ysgolion, gyda chyfranogiad llawn cyrff llywodraethu cynradd ac uwchradd wedi’u cefnogi gan ddarpariaeth hyfforddiant ar y pwnc hwn fel bod llywodraethwyr, sydd, wedi’r cyfan, yn wirfoddolwyr, yn cael gwybodaeth addas i gymryd rhan lawn yn yr adolygiad.<br><br>**Sylwadau**<br><br>• Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r farn bod angen newid trawsnewidiol aruthrol ar draws yr Awdurdod Lleol er mwyn diwallu darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol o fewn cyllidebau anodd. Fodd bynnag, amlygwyd bod angen bod yn ofalus lle mae |

| | |
|---|---|
| | gostyngiadau yn y gyllideb yn cael effaith ychwanegol ar wasanaethau eraill, megis ysgolion, ac ni ddylid rhoi gormod o faich ar y gwasanaethau hynny, ar ben eu gostyngiadau eu hunain.<br><br>**<u>Gwybodaeth ychwanegol</u>**<br><br>Er mwyn i'r Aelodau gael darlun llawn o'r gostyngiadau staffio a'u heffaith ar yr Awdurdod Lleol wrth symud ymlaen, gofynnwyd iddynt gael golwg ar yr holl ailstrwythuro staffio sylfaenol, gan nodi bod angen gofal er mwyn peidio â nodi aelodau unigol o staff.  Gofynnodd y pwyllgor a allai'r wybodaeth hon ddangos y sefyllfa cyn ac ar ôl unrhyw ailstrwythuro arfaethedig er mwyn gweld y goblygiadau llawn.<br><br>**Blaenraglen Waith Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 1**<br><br>**Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol**<br>Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau cadarnhaol ar y cynnig i gychwyn adolygiad o ddarpariaeth Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yr Awdurdod yn hytrach nag aros nes bod Llywodraeth Cymru wedi cwblhau eu hadolygiad eu hunain, o ystyried y sefyllfa gyllidebol anodd y mae'r Awdurdod yn ei hwynebu nawr.  Gofynnodd y Pwyllgor i wybodaeth gael ei darparu ar y canlynol pan gyflwynir adroddiad i'r pwyllgor craffu mewn cyfarfod yn y dyfodol:<br>Faint o blant sy'n cael cludiant rhwng y cartref a'r ysgol oherwydd diffyg llwybrau diogel i'r ysgol;<br>Yr effaith y gallai unrhyw ostyngiad ei chael ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys sut i atal y disgyblion hyn rhag cael eu heffeithio'n andwyol.<br><br>**Llythyr i Lywodraeth Cymru**<br>Gan gydnabod y cynnydd arfaethedig o 3% yn y gyllideb gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i setliad drafft, mynegodd y Pwyllgor bryderon difrifol ynghylch y pwysau cynyddol ar wasanaethau lleol gan gynnwys ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol, a'r ffaith nad oedd y setliad yn ddigon i fynd i'r afael â phwysau o'r fath.  Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi bod pob Awdurdod Lleol yn yr un sefyllfa, fodd bynnag, o ystyried adroddiadau a dderbyniwyd bod y Gweinidog yn dymuno diogelu cyllidebau ysgolion, dywedodd yr Aelodau fod angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy i gefnogi ac ariannu Awdurdodau Lleol yn briodol.  Felly cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i dynnu sylw at y materion hyn ac i gefnogi'r Cabinet i roi pwysau ychwanegol ar Weinidogion i fynd i'r afael â'r sefyllfa gyllido ar gyfer Awdurdodau Lleol. |

| | |
|---|---|
| | Yn ogystal â hyn, gofynnodd y Pwyllgor i'r llythyr hwn at Lywodraeth Cymru hefyd dynnu sylw at yr angen i Awdurdodau Lleol gael eglurhad cynharach ar unrhyw ddyraniad cyllideb allanol neu ganolog. Mae hyn o ganlyniad i'r ansicrwydd parhaus a brofir ar hyn o bryd mewn perthynas â phensiynau athrawon ac a fydd y rhain yn cael eu hariannu'n ganolog. Heb wybodaeth o'r fath, mae'n anodd iawn i Awdurdodau Lleol gynllunio a chynhyrchu cyllideb gytbwys gywir a gwybodus yn effeithiol, ac yn bwysicach fyth ymgynghori arni. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Ionawr 2024 |

## 39. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Dim un |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 18 Ionawr 2024 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon ar gyfer Rhan Un a'r ddolen hon ar gyfer Rhan Dau.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:00.